

Mawrth 31^{ain} Ionawr 2017

Annwyl Aelodau a Thîm Cymorth Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili.

Diolch am roi cyfle i mi ddarparu adborth ar eich Asesiad o Lesiant Lleol drafft a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016. Rwy'n cydnabod yn llwyr yr heriau a wynebwyd gennych y tro hwn wrth ddatblygu'r asesiad, ac rwy'n eich llongyfarch ar eich ymdrechion.

Fy mhrif ffocws wrth ddarparu'r adborth hwn yw eich helpu i ystyried i ba raddau y bydd y gwaith a wnaethpwyd gennych hyd yn hyn o gymorth i chi wrth i chi bennu eich cydamcanion ac ymgymryd â chynllunio llesiant. I mi, y Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau), sy'n rhoi'r cyfleoedd mwyaf i'r sector cyhoeddus yng Nghymru i newid y ffordd yr ydym yn gwneud pethau yng Nghymru a llunio penderfyniadau ar y cyd a chyflwyno gwasanaethau a fydd o fudd i genedlaethau'r dyfodol.

Mae eich asesiad yn rhan allweddol o hyn, a thra fy mod yn gwerthfawrogi na fydd yn cynnwys y darlun i gyd ar yr adeg y byddwch yn ei gyhoeddi, mae'n bwysig ei fod yn amlinellu'n glir a deallus ddarlun o lesiant Caerffili a llesiant eich cymunedau, sy'n berthnasol yn awr ac i mewn i'r dyfodol. **Dylai eich asesiad eich galluogi i nodi'n glir yr heriau ar gyfer eich ardal a'ch cymunedau, gan ddatblygu cydamcanion sy'n mynd i'r afael â'r heriau hyn.**

Ynglwm gweler dogfen sy'n rhoi adborth manwl ar eich asesiad drafft, ac sy'n eich annog i feddwl am yr hyn y dylech fod yn adeiladu arno yn y tymor byr, wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant, ond hefyd yn nhermau asesu llesiant yn y dyfodol.

Yn ystod 2017-18 un o'ch tasgau allweddol fydd datblygu eich cydamcanion llesiant fel rhan o'ch Cynllun Llesiant. Mae'r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i chi geisio fy nghyngor ar sut i symud tuag at gwrdd â'ch amcanion yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy (y pum dull o weithio).

Isod rwy'n amlinellu rhai o'r pethau y byddaf yn edrych amdanynt wrth i fy swyddfa barhau i weithio gyda chi. Yn fy marn i mae'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) sydd wedi dangos eu bod eisoes yn talu sylw i'r pum dull o weithio, mewn sefyllfa dda i ddatblygu amcanion a Chynlluniau Llesiant a fydd yn fanteisiol i bob sefydliad sy'n ymgyfrannu, yn nhermau maccsimeiddio eu cyfraniad cyfunol i'r nodau, a mynd i'r afael â heriau sy'n pontio'r cenedlaethau.

Rydych wedi cychwyn yn dda gyda'ch ymagwedd tuag at **ennyn ymgyfraniad pobl a chymunedau** wrth ddatblygu eich asesiad. Mae angen i chi feddwl am adeiladu ar hyn

i wneud yn siŵr eich bod yn parhau i ddarparu cyfleoedd ar gyfer ystod eang o randdeiliaid a dinasyddion i ymgyfrannu yn y broses o ddylanwadu ar ddatblygiad eich amcanion, a medru dangos bod eu mewnbwn yn cael effaith ar yr hyn yr ydych yn ei wneud. Rhan o hyn yw sicrhau hefyd eich bod yn gwneud yr wybodaeth sydd gennych yn berthnasol nid yn unig i Gaerffili'n gyffredinol ond i bob un o'r cymunedau yn eich ardal.

Yn nhermau'r **hirdymor**, rydych yn cyfeirio at ffrâm amser o 25 mlynedd yn y cyflwyniad i'r asesiad. Buaswn yn disgwyl i'ch asesiad ystyried yr hirdymor drwyddi draw, i ddarparu sylfaen cadarn ar gyfer cynllunio llesiant eich cymunedau yn yr hirdymor. Mae'n bwysig bod eich asesiad yn cychwyn cyfleu'r heriau allweddol a'r cyfleoedd i Gaerffili yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor.

Roeddwn yn hapus i weld eich bod wedi adeiladu eich asesiad o gwmpas y saith nod llesiant, ond dylech gryfhau'r ymagwedd hon drwy roi mwy o ystyriaeth i **integreiddio'r** nodau (gweler enghreifftiau yn yr adborth manwl). Bydd hyn yn arbennig o bwysig wrth i chi feddwl am rolau perthnasol eich gwahanol sefydliadau **wrth facsimeiddio eich cyfraniad i'r nodau**.

Un o elfennau allweddol y ddeddfwriaeth yw'r ffocws ar **atal problemau** rhag digwydd yn hytrach na gwneud dim mwy nag ymateb iddynt ac rwy'n gweld hyn fel blaenoriaeth allweddol ar gyfer eich cynllunio llesiant. Mae hwn yn faes lle mae angen i chi ffocysu eich sylw ar yr hyn a ddywedir wrthyh gan y data a'r dystiolaeth, er mwyn gwneud synnwyr o'r heriau allweddol a nodwyd gennych.

Ac mae **cydweithio**'n hanfodol i hyn i gyd - credaf fod gennych y cyfle i symud eich gwaith partneriaeth i lefel newydd, gan gydweithio gydag adnoddau a darganfod dulliau newydd o ddelio â hen broblemau. Dylai eich asesiad eich helpu i adnabod y cyfleoedd mwyaf ffrwythlon ar gyfer gwneud hyn.

Mae eich tîm cymorth wedi gweithio'n galed i ddatblygu'r asesiad hwn a bydd ar y bobl sy'n cynorthwyo eich cynllunio llesiant angen eich cefnogaeth lwyr. Nodweddion allweddol yn hyn o beth, mae'n debygol, fydd yr arweinyddiaeth a ddangosir gennych a'ch parodrwydd i roi gofod a chaniatâd i bobl archwilio dulliau newydd o fynd i'r afael â hen broblemau. Yn ei hanfod, mae'r newid hwn mewn diwylliant yn crynhoi natur Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Gan ragweld y gofyniad i mi ddarparu cyngor ar y modd y dylech symud tuag at gwrdd â'ch cydamcanion hoffwn weld manylion pellach am y modd y byddwch yn defnyddio'ch asesiad i symud tuag at gynllunio llesiant. Buaswn yn gwerthfawrogi'n fawr petaech yn rhoi gwybod i fy swyddfa sut yr ydych wedi ymateb i'n hadborth. Gan gadw hyn mewn golwg bydd hefyd yn bwysig i chi roi fy adborth i'r pwyllgor



craffu sy'n arwain y gwaith o graffu ar waith Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus . Adnabuwyd yr angen am ymagwedd fwy adeiladol tuag at graffu fel rhan bwysig o facsimeiddio gweithredu ar y cyd ar lefel leol.

Gobeithiaf fod ein hadborth yn glir ac yn ddefnyddiol yn y cyfnod hwn. Fodd bynnag, rhaid i mi ailadrodd nad wyf yn gweld eich asesiad fel digwyddiad unwaith ac am byth. Wrth symud ymlaen byddaf yn rhoi cyfleoedd i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus i rannu dysgu ac arfer gorau a fydd gobeithio yn ennyn eich ymgyfraniad, er mwyn darparu'r llwyfan gorau i chi ar gyfer cyflawni eich ymrwymadau parhaus o dan y Ddeddf.

Dymuniadau gorau

Sophie Howe
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Adborth oddi wrth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ar Aseiad o Lesiant Lleol draft Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili

1. Cyflwyniad

Mae'r adroddiad canlynol yn rhoi adborth Swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerffili ar ddrafft terfynol Ymgynghoriad ar Aseiad o Lesiant Lleol Caerffili. Mae'r adborth hwn yn seiliedig ar yr adolygiad a wnaed gan ein tîm prosiect¹ o'r dogfennau a'r trafodaethau allweddol canlynol:

- Ymgynghoriad drafft terfynol Aseiad Llesiant Lleol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili 30.11.16
- Proses ymgysylltu ar gyfer cyfnod asesu 'Y Gaerffili a Garem' 2016
- Trafodaeth rhwng y tîm prosiect a thîm y BGC ar 25^{ain} Ionawr.

Mae'r aseiad wedi ei adolygu gan y tîm prosiect a ddefnyddiodd set o feini prawf, wedi eu datblygu'n arbennig ar gyfer ffocysu ar agweddau o gynhyrchiad, methodoleg a dadansoddiad yr aseiad a gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r meini prawf hyn yn ein galluogi i adolygu ystod eang o ymagweddau tuag at aseiad lleol o lesiant, sydd wedi cael eu defnyddio ledled Cymru. Mae hyn hefyd wedi ein galluogi i ddarparu adborth pwrpasol i FGCau, gan amlygu cryfderau a meysydd â photensial ar gyfer eu gwella.

Bydd yr ymagwedd gyson hon hefyd yn galluogi'r Comisiynydd i adnabod materion allweddol ac amlygu cyfleoedd ar gyfer dysgu ar y cyd, ar lefel Cymru-gyfan, ar gyfer yr ystod eang o gyrff y sector cyhoeddus a chyrrff eraill sy'n ymgyfrannu yng nghynllunio llesiant.

Bwriedir i'r adborth hwn gael ei ddefnyddio i drwytho cyhoeddiad yr aseiad yn ystod Gwanwyn 2017, a'r prosesau parhaus o asesu a chynllunio llesiant, a fydd yn eich helpu i adeiladu ar y gwaith yr ydych wedi ei wneud hyd yn hyn a defnyddio'r adborth i barhau i wella eich dealltwriaeth o lesiant yn eich ardal.

¹ Dr. Alan Netherwood, Netherwood Sustainable Futures, Dr. Andrew Flynn, Prifysgol Caerydd a Dr. Mark Lang, Mark Lang Consulting

Tra'n bod yn deall bod yr Asesiadau Llesiant yn broses barhaus, ac y bydd gwaith pellach yn cael ei wneud yn y misoedd sy'n dod, mae'n bwysig eich bod yn nodi a gweithredu ar y sylwadau canlynol wrth i'r asesiad Llesiant gael ei ddatblygu, ei addasu a'i gynyddu i drwytho cynllunio Llesiant ar draws y BGC.

2. Nodau Llesiant cenedlaethol

Rydym wedi ystyried pa mor effeithiol yr adlewyrchwyd y saith nod Llesiant cenedlaethol yn yr asesiad. Mae'n ardderchog i weld bod holl strwythur y dogfennau a'r gwaith ymgysylltu wedi eu ffurfio o gwmpas y saith nod Llesiant cenedlaethol. Mae hyn yn dangos ymrwymiad gwirionedd y BGC i ailffurfio'i waith o gwmpas y Ddeddf a dylai hyn gael ei gymeradwyo.

Fodd bynnag, mae'n bwysig nad yw pob nod yn cael ei gweld ar wahân. Gallai'r asesiad fod wedi rhoi mwy o ystyriaeth i'r berthynas a'r cysylltiadau rhwng pob nod, yn y gweithgaredd ymgynghori a hefyd y dadansoddiad meintiol ac ansoddol. Er enghraifft, yn y berthynas rhwng ffyniant a chymunedau cydlynol, byddai wedi bod yn fanteisiol i ddatblygu dealltwriaeth o ba bwysau a chyfleoedd *penodol* a allai effeithio ar gydlyniant cymunedau ar draws yr ardal fel canlyniad i faterion o dan yr adran ffyniant. Mae deall y cysylltiadau rhwng y rhain yn rhywbeth y buasem yn disgwyl ei weld wrth i'r broses asesu barhau ac wrth i'ch cynllunio Llesiant fynd rhagddo.

Rydym yn ehangu ar y mater hwn sy'n ymwneud ag integreiddio ym mhwynt 8 yn y ddogfen adborth hon.

3. Cynnwys data – ardal a lle

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ei gwneud yn ofynnol i asesiadau ffocysu ar yr ardal a'r 'lle' ac adlewyrchu'r amrywiaeth o gymunedau ledled eich ardal. Rydym wedi ystyried i ba raddau y mae cynnwys data eich asesiad yn gwneud hyn, ac ar y cyfan, mae eich asesiad yn gytbwys iawn wrth ddarparu data ar gyfer Caerffili gyfan, data lleol, rhanbarthol a chenedlaethol.

Fodd bynnag, gallai lefel dadansoddiad a dehongliad eich data fod yn fwy cyson ym mhob un o'r saith adran yn eich asesiad. Yn aml caniateir i'r data 'siarad dros ei hunan' gyda sylwebaeth gyfyngedig yn cael ei darparu ar gyfer dealltwriaeth darllenwyr o beth mae hyn yn ei olygu i gyflwr Llesiant yn yr ardal yn gyffredinol ac i gymunedau unigol.

Er gwaethaf y manylion a ddarparwyd gan ddata Grŵp Strategol ar Asesu Llesiant yng Ngwent (GSWAG), caiff cymunedau yn aml eu trin drwy'r ddogfen drwyddi draw fel 'un uned' homogenaidd. Tra caiff y data ei gyflwyno yn yr Atodiadau, ychydig o ddehongli a geir o hyn yn y brif ddogfen ar gyfer cymunedau unigol ar draws yr ardal.

Mae yna botensial i'r ddogfen gael ei chryfhau drwy adlewyrchu amrywiaeth cymunedau Caerffili a'r gwahaniaethau a'r anghydraddoldebau o fewn (a rhwng) ardaloedd cymunedol. Mae'r adran ar lechyd yn enghraifft dda o ble mae'r asesiad yn manylu ar faterion penodol perthnasol i gymunedau penodol, ac mae'r naratif a'r dehongli yn glir. Gellid gwella'r ddogfen petai'r lefel hwn o fanylder a ffocws ar y gymuned yn bresennol ar draws adrannau eraill yr asesiad a byddai ymagwedd o'r fath yn eich gosod mewn sefyllfa gref i ddatblygu amcanion llesiant sy'n berthnasol i'ch cymunedau.

4. Cynnwys data - Sut mae pobl angen gwasanaethau cyhoeddus a sut maent yn eu defnyddio

Credwn ei bod yn bwysig bod gennych ddarlun clir o wahanol anghenion eich pobl a'ch cymunedau yn awr ac yn y dyfodol, a bod goblygiadau'r anghenion hyn yn cael eu deall.

Rydym wedi ystyried i ba raddau mae cynnwys data'r asesiad yn ffocysu ar y modd y mae pobl yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus a'u hangen amdanynt, o fewn cymunedau ac ymhlith grwpiau o unigolion. Mae'n braf gweld bod y ffocws ar anghenion cymunedol drwy'r holl broses ymgynghori wedi eu gosod yng nghyd-destun y saith nod llesiant. Mae'r modd y mae'r cwestiynau o fewn yr ymgynghoriad wedi cael eu fframio o amgylch yr angen am wasanaethau, ac integreiddiad yr wybodaeth o'r Asesiad Poblogaeth yn dangos yn glir yr angen am wasanaethau cyhoeddus.

5. Dadansoddiad meintiol ac ansoddol

Rydym yn cydnabod yr her o ennill cytbwysedd rhwng data, mewnwelediadau a thystiolaeth ar gyfer cynhyrchu dealltwriaeth orffenedig o lesiant cymunedau ac unigolion yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor. Un o'n prif ystyriaethau fu i ba raddau y mae dadansoddiad meintiol ac ansoddol a dulliau dadansoddi wrth asesu'n rhoi darlun cyffredinol o lesiant amgylcheddol, economaidd, diwylliannol a chymdeithasol, ynghyd â sylwebaeth ddechreuol ar oblygiadau'r 'darlun' hwn i gymunedau. h.y. beth sydd o bwys mewn gwirionedd?

Ar y cyfan, mae'r ddarpariaeth data meintiol yn drwyadl ac wedi ei gyflwyno'n dda ar gyfer pob ardal o dan y saith nod llesiant. Fodd bynnag, fel y nodwyd eisoes, mae yna gyfle ar gyfer llawer mwy o sylwebaeth, dadansoddiad, synthesis a dehongliad i ddatblygu'n dealltwriaeth o oblygiadau'r data ar gyfer Caerffili'n gyffredinol, ar gyfer cymunedau unigol ac ar gyfer grwpiau arbennig o fewn y gymuned.

Tra bod ffocws ar eich pum ardal gymunedol yn gadarnhaol byddai'r adrannau hyn ar eu hennill o gael eglurhad o'r heriau allweddol *ym mhob lleoliad*, gan ddefnyddio'r data ardal sydd ar gael yn yr Atodiadau.

Mae eich data ansoddol, yn deillio o'ch ymgynghoriad nodedig, ar y cyfan wedi ei gyfleu yn dda iawn, ac yn cefnogi'r data meintiol i arddangos themâu allweddol sy'n dod i'r amlwg o dan bob nod. Fodd bynnag, mae gennych y cyfle i wneud defnydd mwy o'r deunydd hwn i ddatblygu darlun clir o lesiant yn yr ardal (gweler sylwadau nes ymlaen ym mhwynt 7).

Yn nhermau dadansoddi, mae'r paragraffau canlynol yn rhoi adborth penodol ar bob un o'r saith thema:

Economi: Mae'n beth cadarnhaol bod yr adran hon yn rhestru cyd-destunau cyfredol yn ymwneud â strategaeth a llywodraethu ac wedi ymgysylltu â'r gymuned fusnes. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r 'darlun' o lesiant economaidd lleoliadau arbennig. Gellid gwella'r adran hon drwy gyfleu'r materion allweddol a'r grynodeb yn fwy clir.

Cydnorth: Mae gan yr adran hon ddadansoddiad ardderchog ac mae'n dangos yr effaith ar leoliadau, gan ddefnyddio'r Asesiad Risg Newid Hinsawdd a ffynonellau data eraill. Gallai'r adran (ac eraill) fod yn fwy clir am darddiad y materion ag arnynt angen ystyriaeth bellach. Byddai'r wybodaeth o ddiwyddiadau adborth hefyd ar ei hennill o gael rhyw faint o dehongli.

Iechyd: Mae'r adran hon wedi ei hysgrifennu'n dda a'r dystiolaeth hefyd yn dda, a'r dull o adnabod materion allweddol, y sefyllfa gyfredol a sut mae hyn i gyd yn effeithio ar y *Cyngor*. Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod yna ddiffyg dadansoddiad beirniadol i adeiladu darlun o'r oblygiadau i lesiant yn yr *ardal* – eto, byddai cyfathrebu gwell a gwell crynodeb yn gwella'r adran hon.

Cyfartal: Mae'r adran hon yn gryf iawn ar dueddiadau sy'n effeithio ar dlodi a chyfartaledd, yn cynnwys diwygio lles ac mae'r digwyddiadau ymgysylltu â phobl ifanc wedi bod o help gwirioneddol i ddatblygu data. Gellid gwella'r adran hon drwy ddarparu dangosyddion cliriach o

ba rai o'r gweithgareddau arfaethedig sydd fwyaf pwysig ar gyfer cynyddu cydraddoldeb ar draws eich ardal.

Cydlyniad: Mae'r adran hon yn rhoi disgrifiadau trawiadol o 'baham mae pethau'n bwysig' – nid oes cymaint o wybodaeth am baham mae'r rhain yn bwysig yng Nghaerffili ac yn arbennig yn y lleoliadau o fewn yr ardal. Mae hon yn un o'r adrannau lle mae angen gwell naratif a chrynodeb llawer cliriach o faterion allweddol.

Diwylliant: Mae'r rhan o'r adran hon sy'n son am yr iaith Gymraeg yn rhoi cyd-destun ardderchog a thystiolaeth – er y byddai o help i gyfuno'r ddwy adran ar yr iaith Gymraeg sydd ar wahân. Mae'r adran ar y Celfyddydau hefyd yn syml a dealladwy gyda disgrifiadau da o asedau seiliedig yn y gymuned.

Byd-eang: Fel yr adran ar gydlyniad, mae'r adran hon yn rhoi arolwg theoretig da o bwysigrwydd y nod hon, fodd bynnag, ychydig o wybodaeth a roddir ar y modd y mae'r heriau hyn yn effeithio ar Gaerffili, neu beth a olygant i'r sector cyhoeddus. Mae'r adran hon yn hynod o aneglur fel casgliad o ddatganiadau heb unrhyw naratif clir am ba faterion sy'n bwysig i'w hystyried yn yr ardal.

6. Heriau allweddol

Mae'n bwysig bod asesiadau llesiant, wrth asesu cyflwr llesiant, yn ffocysu ar heriau allweddol i lesiant dros y tymor byr, canolig a'r hirdymor, yn ogystal ag ar y nodweddion cadarnhaol ac asedau'r ardal. Mae hyn yn cynnwys y cyfaddawdau rhwng gwahanol nodau llesiant, tensiynau a'r diffygion o fewn yr ardal.

Mae'n ddefnyddiol bod pob un o'r adrannau gwahanol ar gyfer y saith nod llesiant yn rhoi trosolwg byr o'r sefyllfa; rhestrau o ymyriadau cyfredol; rhestrau o drefniadau strategol a threfniadau llywodraethu a rhestrau o asedau. Fodd bynnag, byddai'r naratif ar ei ennill o gael adnabyddiaeth gliriach o heriau allweddol ar gyfer y ddwy gymuned a darpariaeth gwasanaethau cyhoeddus ym mhob un o'r saith adran. Mae yna hefyd botensial ar gyfer eglurhad cliriach o gyfaddawdau, tensiynau a diffygion mewn lleoliadau arbennig.

Lle mae heriau allweddol yn cael eu disgrifio'n fanwl, maent yn aml yn cael eu fframio mewn termau cyffredinol, fel y dangoswyd yn y data asesu risg newid yn yr hinsawdd. Mae hon yn enghraifft o ble gallai'r data cenedlaethol hyn fod wedi ei ddehongli ar gyfer yr ardal ac wedi trwytho dealltwriaeth o

heriau allweddol a phwysau ar gymunedau arbennig a grwpiau o bobl. Yn yr un modd, mae'r adrannau ar ffyniant a diwylliant yn rhoi dealltwriaeth gyffredinol o brif dueddiadau, ond ychydig o fewnwelediad i'r modd y gallent effeithio o fewn yr ardal a pha gyfaddawdu allai ddigwydd.

Gellid gwella pob un o'r saith adran yn y ddogfen gyda chrynodeb o'r heriau allweddol dros y tymor byr, canolig a'r hirdymor (gweler sylwadau nes ymlaen yn yr adran Rhagweld a Thueddiadau'r Dyfodol).

7. Ymgysylltu, ymgyfrannu a chydweithio

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn dangos yn glir bod cydweithio ac ymgyfrannu yn ddau o'r pum dull o weithio sydd ag angen i FGCau eu defnyddio'n gyson yn eu gwaith. Fel canlyniad, bu gennym ddiddordeb arbennig yn lefel a dulliau ymgysylltu, ymgyfrannu a chydweithio ar draws y bartneriaeth a ystyriwyd wrth gynhyrchu'r asesiad, yn cynnwys ymgysylltiad â chymunedau, y cyhoedd, y trydydd sector a sefydliadau'r sector preifat.

Mae gwaith y BGC ar hyn yn gryf yn nhermau'r dulliau a fabwysiadwyd, gyda llawer o ymdrech wedi ei wneud i ymgysylltu â, a gwrando ar breswylwyr. Mae Pennod 2 yn dangos ystod drawiadol o ymgysylltu o gwmpas rhai cwestiynau sylfaenol a gafodd eu fframio'n dda ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd. Mae'n amlwg bod yr ystod, y dulliau ac ehangder yr ymgysylltiad ar draws pob sector wedi eu cynllunio a'u cyflwyno'n dda. Cafodd digwyddiadau pwrpasol a rhai oedd wedi eu cynllunio eisoes eu defnyddio fel cyfleoedd i ofyn a gwrando. Mae ehangder ymgysylltiad ar draws pob sector, grŵp oedran a chymunedau o ddiddordeb yn gryf yn nhermau'r nifer yr ymgysylltwyd â hwynt ond hefyd yn nhermau ansawdd yr wybodaeth a ddarparwyd. Byddai ymgysylltiad pellach â'r sector preifat yn gwella dealltwriaeth o lesiant economaidd yn eich ardal.

Mae angen gwneud rhagor o waith o hyd i ddehongli a dadansoddi'r rhestrau o wybodaeth a ddarparwyd drwy eich gweithgareddau ymgysylltu, i benderfynu pa faterion yw'r rhai mwyaf pwysig i bobl. Mae angen i hyn barhau fel blaenoriaeth wrth i'ch gwaith fynd yn ei flaen.

8. Integreiddio

Un o amcanion allweddol Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw datblygu integreiddio ar bob lefel ar draws y sector cyhoeddus. Credwn ei bod yn bwysig ein bod yn deall y gydberthynas rhwng llesiant amgylcheddol, cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Fel canlyniad rydym wedi bod yn awyddus i

ystyried faint o integreiddio sy'n bodoli rhwng polisi traddodiadol a seilos sefydliadol wrth gynhyrchu'r asesiad.

Mae hwn yn faes i chi roi mwy o ystyriaeth iddo wrth i chi gwblhau eich asesiad ar gyfer ei gyhoeddi, ac wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant. Mae lle i fwy o integreiddio rhwng y saith nod llesiant, a mwy o archwiliad o'r berthynas polisi/heriau rhwng pob thema. Ymddengys bod pob ardal wedi ei thrin ar wahân yn nhermau awduraeth, ymgysylltu a dehongli, efallai'n adlewyrchu corff arweiniol yn ysgwyddo'r cyfrifoldeb am gynhyrchu pob Adran? Mae'n bwysig bod y data a restrir yn yr asesiadau'n cael ei archwilio ar draws seilos traddodiadol i ddehongli beth mae hyn yn ei olygu i lesiant yn yr ardal.

Mae'n bwysig bod y berthynas rhwng y saith nod yn cael ei harchwilio'n drwyadl, a'ch bod chi fel BGC yn archwilio sut y gallwch facsimeiddio'ch cyfraniad tuag at yr holl nodau drwy gydweithredu. Bydd diddordeb gennym i weld sut fydd yr integreiddio hyn yn datblygu wrth i gynllunio llesiant fynd rhagddo.

9. Rhagwelediad a thueddiadau'r dyfodol

Un o heriau allweddol y ddeddfwriaeth yw ystyried llesiant yn y tymor byr, canolig *a'r hirdymor* drwy gydol yr asesiad a'r broses gynllunio. Mae gennym ddiddordeb yn lefel y rhagwelediad a'r defnydd a wneir o ddadansoddiad tueddiadau'r dyfodol wrth gynhyrchu'r asesiad a sut yr ydych wedi adnabod llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r cyflwyniad yn cyfeirio at y defnydd o gynllunio senario rhagweld – gyda'r BGC yn cynnal gweithdy ar y thema hon ar gyfer pob nod llesiant. Dylid cymeradwyo'r ymdrech hon.

Fodd bynnag, gofynnodd y gweithdy dri chwestiwn: un ar flaenoriaethau o dan y rôl llesiant; un ar fylchau ac un cwestiwn yn gofyn a fydd y materion hynny a nodwyd yn y presennol yr un fath yn 2040. Arweiniodd hyn at restr o dan bob un o'r saith ardal syniadau am dueddiadau'r dyfodol a allai gael effaith yn 2040. Mae'r data hyn yn ddefnyddiol, ond nid cynllunio senario yw'r rhestrau hyn. Mae yna botensial i chi dynnu sylw at y rhestrau hyn o faterion a deall sut y gallent effeithio ar eich ardal, ac mewn gwahanol gymunedau erbyn 2040 – drwy gynllunio senario.

Mae'r cyflwyniad i'r asesiad yn cyfeirio at ffrâm amser o 25 mlynedd. Mae rhagamcanion o boblogaeth, tai, iechyd a hinsawdd ar gael yn hawdd ac wedi eu defnyddio i drwytho'r naratif. Fodd bynnag gallech fod wedi defnyddio'r ffrâm amser 25 mlynedd hyn yn fwy cyson ar draws y gwahanol adrannau yn y dadansoddiad: cyfyngedig yw'r dehongliad a'r synthesis o bwysau'r hirdymor a chyfaddawdau ar yr ardal a sut mae'r rhain yn cydberthyn.

Gallai'r drafft terfynol o'r asesiad gael ei wella drwy ddefnyddio ymagwedd syml o grynhoi heriau'r tymor byr, canolig a'r hirdymor ar gyfer pob adran fel yr awgrymwyd ym mhwynt 6, gan adnabod ble mae goblygiadau arwyddocaol posibl ar gyfer yr ardal, a bylchau yn eich dealltwriaeth o dueddiadau hirdymor.

Bydd Llywodraeth Cymru'n cynhyrchu eu Hadroddiad Tueddiadau'r Dyfodol ym Mai 2017. Y bwriad ar hyn o bryd yw cynnwys 6 thema allweddol: Poblogaeth, Economi, Adnoddau Naturiol a Newid Hinsawdd, Iechyd, Defnyddio Tir a Seilwaith a Newid Cymdeithasol. Bydd angen i'ch asesiad dalu sylw i'r data a gynhwysir yn hwn, ond dylai anelu at roi pwyslais eglurach ar heriau'r hirdymor i lesiant yng Nghaerffili yn yr asesiad a gyhoeddwyd ym mis Mawrth.

10. Materion trawsffiniol

Mae integreiddio a chydweithio'n ganolog i gyrff cyhoeddus pan fyddant yn cymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy i'w gweithgareddau. Un o'n hamcanion fu adolygu i ba raddau y mae'r asesiad wedi ystyried materion trawsffiniol ar gyfer gweithredu rhanbarthol a chenedlaethol.

Mae partneriaeth GSWAG yn amlwg wedi ymgymryd â chorff trawiadol a thrwyadl o waith i ystyried penderfynyddion eang llesiant ar draws y rhanbarth. Mae'r atodiadau ar gyfer Caerffili ac ardal Gwent wedi rhoi sylfaen cadarn ar gyfer gwella'n dealltwriaeth o lesiant. Mae angen eglurhad cliriach a beth a olygir gan y data hyn i Gaerffili mewn cyd-destun rhanbarthol.

Byddai dealltwriaeth fanylach o faterion allweddol rhanbarthol a thrawsffiniol sy'n effeithio ar Gaerffili yn ddefnyddiol ar gyfer trwytho eich cynllunio llesiant. Gallai'r asesiad roi eglurhad cliriach o 'rôl' Caerffili o fewn y rhanbarth.

Tra bo adran fach ar botensial economaidd a manteision seilwaith y Ddinas-ranbarth yn rhoi gwybodaeth, nid yw'n glir beth fydd goblygiadau'r prosiect mawr, hirdymor hwn ar *bob* agwedd ar lesiant cymunedau ar draws yr ardal. Hyd yn oed os ydyw'r effeithiau penodol yn ansicr ar hyn o bryd, mae'n amlwg y caiff ddylanwad ar gydlyniant, cydraddoldeb, cydnerthedd ac yn y blaen. Dylai pob adran o'r asesiad gynnwys dylanwad posibl y prosiect, tu hwnt i'r adran ar ffyniant, gan y bydd yn debygol o gael effeithiau niferus ar draws gwahanol rannau o Gaerffili.

Byddai'r ddogfen hon ar ei hennill o gael mwy o eglurder am beth yw bwriad yr adran 'Agenda Rhanbarthol Gwent'. Ar hyn o bryd mae'n rhestru gweithgareddau ac agendâu presennol ystod o gyrff sy'n cynnwys nifer o bartneriaid o'r sector cyhoeddus. Gellid egluro'n well sut mae'r rhestrau hyn yn

cysylltu ag adrannau blaenorol. Os mai'r bwriad yw rhestru trefniadau llywodraethu rhanbarthol, yna mae angen cynnwys y Cyngor, Cyfoeth Naturiol Cymru, Comisiynydd Heddlu a Throseddu, ac efallai bydd angen ehangu ar hyn i ddisgrifio rôl partneriaethau eraill sy'n weithgar yn y rhanbarth.

Bydd hefyd yn bwysig i'r BGC ystyried casgliadau asesiadau llesiant lleol ardaloedd cyfagos wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant. Tra'n bod yn cydnabod cymhlethdod hyn i Gaerffili gyda'i saith BGC cyfagos, mae'n amlwg y bydd y berthynas ar ystod eang o faterion llesiant yn torri ar draws pob un o'r ffiniau gweinyddol hyn. Byddai peth eglurder ar sut fydd cynllunio llesiant Caerffili'n ymdrin â hyn yn fuddiol, drwy GSWAG neu ddulliau eraill.

11. Ansawdd data a bylchau data

Bwriad Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yw sicrhau y bydd cynllunio llesiant yn broses barhaol lle bydd y sylfaen dystiolaeth yn gwella'n raddol dros amser i alluogi cyrff cyhoeddus ac eraill i ddeall a chynllunio ar gyfer llesiant yn eu cymunedau. Rydym yn awyddus i ddeall ymagwedd BGCau tuag at ansawdd data a bylchau data yn ystod yr asesiad ac wrth i faterion data symud yn eu blaen.

Mae'n amlwg bod llawer o ymdrech wedi ei wneud i sicrhau ansawdd data drwy'r bartneriaeth GSWAG. Mae hefyd yn galonogol i weld drwy gydol yr ymgynghoriad bod rhai o'r "materion posibl ar gyfer eu hystyried yn y dyfodol" ym mhob un o'r saith ardal llesiant wedi nodi bylchau mewn data a gweithrediadau ar gyfer eu llenwi. Cafodd bylchau mewn data eu harchwilio hefyd fel rhan o weithdai senarios y Dyfodol.

Gellid gwella'r asesiad drwy ddarparu mwy o fewnwelediad i'r bylchau data o edrych ar y gwaith o wahanol agweddau i ddeall beth allai fod ei angen yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor, h.y. beth sydd ar goll sydd o bwys yn awr i drwytho datblygu cynllun, beth fyddai'n dda i'w adeiladu dros y tymor canolig a beth yw materion data yn y tymor hwy. Byddai hyn yn galluogi'r BGC i adeiladu ar waith presennol a chynllunio ar gyfer gwella ansawdd data yn ystod y flwyddyn nesaf a thu hwnt, gan helpu partneriaid y BGC i adeiladu ymchwil data a dulliau rheoli i mewn i'w busnes a'u cynllunio corfforaethol. Byddai hefyd yn rhoi arwydd i Lywodraeth Cymru, y Swyddfa ac Uned Ddata Cymru o anghenion y BGC.

12. Defnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy (y pum dull o weithio)

Mae'r arweiniad statudol yn gosod cyfrifoldeb ar FGCau i *facsimeddio*'u cyfraniad i'r nodau llesiant drwy ddefnyddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn eu dull o weithio. Rydym wedi bod yn awyddus i ddeall

sut mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum dull o weithio wedi cael eu defnyddio yn ystod asesiadau llesiant.

Mae yna rai cyfeiriadau at y dulliau o weithio sy'n dangos eu bod i ryw raddau wedi cael eu hystyried fel rhan o'r broses datblygu asesiad:

- *Ymgysylltu* - caiff hwn ei grybwyll fel peth pwysig yn y rhaglith i'r adran ac rydym eisoes wedi amlygu'r gwaith rhagorol a welwyd drwy gydol yr ymgynghoriad.
- *Hirdymor* - mae hwn yn eglur ym mheth o'r data a ddefnyddir mewn Atodiadau a'r sgwrs am 2040 (Gweler sylwadau ym mhwynt 10).

Fodd bynnag, ychydig o dystiolaeth sydd yma i ddangos bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy wedi ei ddefnyddio fel dull o weithio yn yr Asesiad (gweler sylwadau ar *Integreiddio* (pwynt 9)). Byddai'r Asesiad ar ei ennill o gael mwy o eglurder ar y modd y mae'r dulliau o weithio wedi newid ymagwedd y BGC tuag at y gwaith hwn, a sut y byddant yn llunio cynllunio llesiant.

13. Edrych ymlaen at gynhyrchu'r cynllun

Mater hollbwysig i'n hadolygiad o'r asesiad hwn oedd ystyried a oedd y ddogfen yn eglur ynghylch y modd y byddai'r gwaith yn cael ei symud yn ei flaen i ddatblygu amcanion lleol a chynhyrchu cynllun. Mae yna ddiffyg eglurder yn yr adrannau terfynol o'r asesiad am yr hyn a fydd yn digwydd nesaf, gyda chyfeiriad at 'drafodaeth barhaus'.

Byddai'r ddogfen ar ei hennill o gael adran fer i fapio'r broses ymgysylltu a'r amserlen ar gyfer y 12 mis nesaf ar gyfer rhanddeiliaid a grwpiau sy'n dymuno parhau i ymgysylltu, i adeiladu ar yr ymgysylltiad cryf a ddangoswyd yng nghynhyrchiad y ddogfen.

Thema a ymddangosodd dro ar ôl tro yn ein hadolygiad oedd y diffygion mewn dehongli a chrynhof'r pethau sy'n faterion allweddol a hollbwysig ar gyfer llesiant yn yr ardal yn gyffredinol ac ar gyfer cymunedau arbennig. Ar hyn o bryd gallwn weld:

- 8 thema gref yn cynnwys yr adran 'Materion sy'n ymddangos'
- 50 dyhead fel 'Materion a ddylai, o bosibl, cael eu hystyried'

Nid yw'n glir ar hyn o bryd ai'r rhain fydd ffocws eich cynllunio llesiant. Byddai dealltwriaeth gliriach o'r modd y bydd yr asesiad, y themâu a'r dyheadau'n cael eu defnyddio i drwytho cynllunio llesiant yn fanteisiol. Mae hyn yn arbennig o bwysig yn nhermau'r modd y bydd eich blaenoriaethau'n cael eu dewis a sut y byddwch yn ymgynghori arnynt.

14. Trosolwg

Mae'r dadansoddiad dogfennol uchod wedi adnabod nifer o feysydd lle gallai'r asesiad, yn ein barn, gael ei gryfhau, yn y tymor byr, cyn iddo gael ei gyhoeddi a dros y tymor canolig wrth i'r dadansoddiad o'r ymateb ddatblygu ac wrth i chi symud tuag at gynllunio llesiant. Hefyd gwnaethom drefnu galwad ffôn i drafod yr asesiad gydag aelodau o dîm y BGC sydd wedi ymgyfrannu yn y broses. Bwriad yr alwad ffôn oedd rhoi cyfle i ni egluro/archwilio materion arbennig a amlygwyd yn ein hadolygiad cyntaf a galluogi'r BGC i roi sylw i faterion sy'n rhan o gyd-destun ehangach cynhyrchiad yr asesiad.

Mae nifer o themâu eang cylchol wedi dod i'r amlwg o'n hadolygiad a'n sgwrs. Credwn y byddai mynd i'r afael â'r materion canlynol yn gwella'r asesiad.

Integreiddio ar draws themâu – mwy o ffocws ar y berthynas rhwng y saith thema a goblygiadau'r rhain ar draws yr ardal ac mewn cymunedau unigol.

Dadansoddiad o'r data – naratif a synthesis cliriach am yr hyn a ddywedir wrthym gan y data am lesiant ar lefel cymunedol ac ar lefel Caerffili.

Manylion lleol – dealltwriaeth gliriach o faterion llesiant ar gyfer cymunedau arbennig o fewn yr ardal.

Cyd-destun rhanbarthol – gwell dealltwriaeth o le Caerffili yn yr ardal ac effaith hyn ar lesiant, a'i chydberthynas ag ardaloedd a chymunedau cyfagos.

Heriau – dealltwriaeth gliriach o heriau (a chyfleoedd) yn y tymor byr, canolig a'r hirdymor i lesiant mewn cymunedau arbennig ar draws Caerffili ac ar lefel rhanbarthol.

Tueddiadau'r Dyfodol – adeiladu ar y gwaith a wnaed ar ragwelediad i adlewyrchu pa effaith fedrai tueddiadau'r dyfodol eu cael ar lesiant cymunedau arbennig a grwpiau o bobl ar draws yr ardal.

Symud ymlaen – darparu disgrifiad cliriach o'r modd y bydd data'r asesiad yn cael ei ddefnyddio wrth i gynllunio llesiant fynd rhagddo.

Cydnabyddir y gellid mynd i'r afael â rhai o'r rhain yng ngweithgareddau arfaethedig y BGC rhwng nawr a chyhoeddiad terfynol yr asesiad, yn arbennig yn natblygiad y gwaith ar ardaloedd cymunedol a blaenoriaethu materion llesiant drwy ddefnyddio'r matrices sgorio.

Gobeithiwn y bydd y materion a godwyd uchod yn trwytho'r cydweithio hwn fel bod yr elfennau hyn yn cael eu hadlewyrchu'n gryfach gan y BGC yn Asesiad Llesiant terfynol Caerffili a thrwy gydol y broses cynllunio llesiant.